Rheolwr Gwaith Ieuenctid Rhyngwladol

DISGRIFIAD SWYDD

Cyflogir gan:	Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (yn gweithredu o dan yr enw Cymru Global)
Yn atebol i:	Pennaeth Dysgu Byd-eang (aelod o'r Uwch Dîm Rheoli)
Cyflog a phensiwn:	**£35,994 pro rata** Bydd deiliaid y swydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig yn ein cynllun pensiwn. Bydd Cymru Global yn talu cyfraniadau pensiwn hyd at uchafswm o 5% o'ch cyflog crynswth (o leiaf 4%)
Telerau cyflogaeth:	Contract cyfnod penodol am flwyddyn, gyda'r bwriad o'i ymestyn os byddwn yn cael cyllid Erasmus+
Lleoliad:	Gweithio o bell, gan deithio i'r Deml Heddwch, Caerdydd
Oriau:	4 diwrnod yr wythnos (29.6 awr) – mae trefniadau gweithio hyblyg ac o bell ar gael
Gwyliau:	36 diwrnod y flwyddyn, gan gynnwys gwyliau banc, pro rata
Teithio:	Teithio'n rheolaidd ar draws Cymru, rhywfaint o deithio yn y DU a theithio dramor o bryd i'w gilydd – defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle bynnag y bo modd

Crynodeb o'r Rôl

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig, ymarferol ac ymroddedig i reoli gwaith ieuenctid rhyngwladol Cymru Global: ein rhaglenni cyfnewid rhyngwladol a'n rhaglen wirfoddoli ryngwladol.

Bydd deiliad y swydd yn rheoli pob agwedd ar gyflwyno ein rhaglenni cyfnewid a'n lleoliadau rhyngwladol. Bydd yn gyfrifol am gyllidebau'r rhaglen ac am arwain ei pherthnasoedd â chyllidwyr a phartneriaid rhyngwladol; am ehangu'r rhaglen drwy feithrin partneriaethau newydd a sicrhau cyllid; ac am weithredu fel arweinydd diogelu'r rhaglen. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gallu gweithio'n annibynnol, cymryd cyfrifoldeb am amrywiaeth eang o weithgareddau, a thalu sylw manwl i fanylion.

Mae'r portffolio presennol yn cynnwys tri phrosiect sydd yn cael eu hariannu gan Taith (Llwybr 1 a dau brosiect Llwybr 2), rhaglenni cyfnewid rhyngwladol gyda Phrifysgol Caerdydd, a lleoliadau gwirfoddoli rhyngwladol unigol sydd yn cael eu hunangyllido drwy ein rhwydweithiau partneriaid rhyngwladol. Mae cynlluniau datblygu at y dyfodol yn cynnwys prosiectau Ieuenctid Erasmus+ a chynnal gwersylloedd gwaith rhyngwladol yng Nghymru.

Mae cyfrifoldebau penodol y rôl yn cynnwys:

1. **Rheoli'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen cyfnewid a gwirfoddoli ryngwladol**
   - Rheoli pob agwedd ar gyflwyno prosiectau i safon uchel, ar amser ac o fewn y gyllideb
   - Cynllunio a rheoli amserlenni prosiectau ar draws pob elfen o'r rhaglen
   - Rheoli cyfleoedd i grwpiau ac unigolion deithio a chymryd rhan mewn gweithgareddau
     sydd yn cael eu hariannu gan Taith: cysylltu â sefydliadau lletyol dramor, recriwtio cyfranogwyr ac arweinwyr grwpiau, trefnu teithio ac yswiriant, casglu ffurflenni cofrestru a chaniatâd rhieni, a chynnal hyfforddiant cyn ymadael a sesiynau ôl-drafod
   - Rheoli prosiectau cyfnewid Prifysgol Caerdydd, gan gynnwys darparu gwybodaeth i fyfyrwyr, hyfforddiant cyn ymadael, cyfarfodydd â sefydliadau lletyol, anfonebu myfyrwyr a thalu partneriaid dramor
   - Prosesu a chefnogi lleoliadau unigol sydd yn cael eu hunangyllido dramor drwy'r adnodd PLATO
   - Datblygu a rheoli gwersylloedd gwaith rhyngwladol sydd yn cael eu cynnal yng Nghymru gyda phartneriaid lleol (a cheisio cynnal un yng Ngogledd Cymru ac un yn Ne Cymru bob blwyddyn)
   - Mynd gyda grwpiau dramor pan fo angen
   - Cynnig achrediad i bobl ifanc drwy'r Wobr Cyflawniad Ieuenctid, gan asesu eu gwaith a chysylltu ag Ieuenctid Cymru

2. **Ehangu cwmpas y rhaglen**
   - Dod o hyd i bartneriaid newydd yng Nghymru a thramor, ac adeiladu perthnasoedd â nhw, gan gynnwys sefydliadau a allai gynnal gwersylloedd gwaith rhyngwladol yng Nghymru
   - Nodi ffynonellau cyllid a dwyn ynghyd arbenigedd mewnol ac allanol i sicrhau cyllid a chynaliadwyedd ariannol y rhaglen
   - Arwain y gwaith o ddatblygu ceisiadau am gyllid (mewn partneriaeth lle bo'n briodol), gan gynnwys prosiectau Ieuenctid Erasmus+ (CA1 a CA2)
   - Cynrychioli Cymru Global mewn rhwydweithiau rhyngwladol, yn enwedig Cynghrair Sefydliadau Gwasanaeth Gwirfoddol Ewrop (gan gynnwys ei Gyfarfod Technegol a'i Gynulliad Cyffredinol) a CCIVS, ac mewn rhwydweithiau gwaith ieuenctid yng Nghymru, fel CWVYS.

3. **Rheoli cyllid a risgiau'r rhaglen**
   - Bod yn gyfrifol am gyllidebau prosiectau a'u rheoli, gan gynnwys cytuno ar addasiadau â chyllidwyr
   - Gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Cyllid ar adroddiadau rheoli chwarterol, gan adolygu incwm a gwariant gwirioneddol yn erbyn cyllidebau cymeradwy, paratoi rhagolygon, monitro perfformiad ariannol, a nodi, dadansoddi ac adrodd ar

amrywiadau yn y gyllideb cyn gynted â phosibl, er mwyn cefnogi penderfyniadau gwybodus a rheolaeth ariannol effeithiol.

- Sicrhau cofnodion ariannol cywir, gan gynnwys incwm, treuliau a derbynebau
- Cymryd camau rhagweithiol i reoli risg: bod yn gyfrifol am asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau teithio grwpiau a lleoliadau unigol, mewn cysylltiad â phartneriaid, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch rheolwr llinell

4. **Arwain ar ddiogelu ar gyfer y rhaglen**
    - Gweithredu fel arweinydd diogelu'r rhaglen cyfnewid a gwirfoddoli ryngwladol, a sicrhau bod staff ac arweinwyr grwpiau wedi'u hyfforddi a'u bod yn deall polisïau ac arferion perthnasol ac yn gweithredu arnynt
    - Darparu hyfforddiant diogelu i staff ac arweinwyr grwpiau
    - Gweithredu fel cyswllt brys 24/7 i gyfranogwyr tra byddant yn teithio
5. **Sicrhau ansawdd, dysgu a pherthnasoedd da**
    - Sicrhau gwaith monitro a gwerthuso o ansawdd uchel yn erbyn amcanion strategol Cymru Global, amcanion ein prosiectau a gofynion ein cyllidwyr, gan gynnwys paratoi adroddiadau ar gyfer cyllidwyr a'r adroddiad blynyddol.
    - Annog diwylliant o ddysgu ar draws y rhaglen, gan adlewyrchu ein gwerth o fod yn chwilfrydig.
    - Cynnal perthnasoedd rhagorol â chyllidwyr (yn enwedig Taith) a phartneriaid
    - Gweithio'n agos gyda'ch rheolwr llinell i sicrhau cyfathrebu cadarn rhwng y rhaglen a thîm ehangach Cymru Global
    - Hyrwyddo rhaglenni cyfnewid rhyngwladol a chyfleoedd gwirfoddoli ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol
6. **Rhwydweithiau a chyfathrebu**
    - Cymryd rhan yn rhwydwaith gwirfoddoli CGGC a'i gyfarfodydd
    - Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol.
7. **Cyflawni ag unrhyw ddyletswyddau perthnasol eraill sydd yn cael eu dirprwyo gan eich rheolwr llinell**

Manyleb y Person

Hanfodol

- Profiad o reoli prosiectau ar raddfa fawr, yn ddelfrydol prosiectau rhyngwladol neu brosiectau ieuenctid sydd yn cael eu hariannu (e.e. Taith neu Erasmus+)
- Profiad o reoli rhaglenni sydd yn cael eu hariannu drwy grantiau ac adrodd arnynt, gan gynnwys cyllidebau cymhleth
- Cymhwyster gwaith ieuenctid (Lefel 2 neu Lefel 3), neu yn barod i ennill cymhwyster yn fuan wrth weithio yn y rôl.
- Profiad o lunio amserlenni prosiectau a chadw atynt, gan gyflawni terfynau amser yn gyson ac yn ddibynadwy
- Profiad o nodi cyfleoedd cyllido ac ysgrifennu ceisiadau llwyddiannus am gyllid

- Profiad o weithio gyda phobl ifanc, yn ddelfrydol mewn lleoliad gwaith ieuenctid neu addysg anffurfiol
- Profiad o weithio gyda phartneriaid rhyngwladol a dealltwriaeth o ddysgu rhyngddiwylliannol
- Hyfforddiant diogelu a dealltwriaeth gadarn o ofynion diogelu, ynghyd â'r gallu i hyfforddi pobl eraill
- Yn barod i weithredu fel cyswllt brys 24/7 yn ystod rhaglenni cyfnewid
- Dealltwriaeth gadarn o arweinyddiaeth fyfyriol: cymryd cyfrifoldeb am gamgymeriadau, gallu cyfathrebu'n glir amdanynt a chefnogi pobl eraill i wneud yr un peth
- Y gallu i weithio'n gydweithredol ac yn gynhyrchiol fel rhan o dîm, gan rannu gwybodaeth yn agored a chefnogi cydweithwyr
- Sgiliau meddwl creadigol a beirniadol i ddatrys problemau a manteisio ar gyfleoedd
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol
- Sgiliau TG da, gan gynnwys Microsoft Office, Google Drive, ffurflenni ar-lein (e.e. Formstack), cronfeydd data lleoliadau (e.e. PLATO) a'r cyfryngau cymdeithasol

Dymunol

- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Y gallu i gyfathrebu mewn iaith Ewropeaidd
- Profiad personol o wirfoddoli rhyngwladol, gwersylloedd gwaith neu raglenni cyfnewid
- Profiad o lunio rhaglenni o weithgareddau, digwyddiadau a hyfforddiant anffurfiol
- Profiad o achredu, megis y Wobr Cyflawniad Ieuenctid

Y Broses Ymgeisio

- Rhaid i bob ymgeisydd lenwi ffurflen gais swyddogol Cymru Global am Gyflogaeth, sydd ar gael yn yma
- Rhowch yr holl wybodaeth berthnasol ar y ffurflen gais, gan na fyddwn yn ystyried CVau na llythyrau eglurhaol fel rhan o'r cais.
- Dylai pob ymgeisydd lenwi'r ffurflen Cyfle Cyfartal. Sylwch na fydd y ffurflen hon yn cael ei rhannu â'r panel sy'n llunio'r rhestr fer ar gyfer cyfweliad.
- Dylech anfon eich cais drwy e-bost i recruitment@cymru.global
- Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ofynion mynediad er mwyn gwneud cais.
- Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 12pm 4/12/2026
- Bydd y cyfweliadau'n cael eu cynnal yr wythnos ganlynol.
- Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth drwy e-bost at bob ymgeisydd. Os na fyddwch wedi cael cydnabyddiaeth erbyn y dyddiad cau, cysylltwch â ni. Ni

allwn dderbyn cyfrifoldeb am geisiadau sydd ddim yn ein cyrraedd, neu sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad cau.

- • Rydym yn gweithredu recriwtio heb enwau. Ni fydd y panel recriwtio yn gweld gwybodaeth bersonol fel enw a chyfeiriad y ymgeisydd yn ystod y broses hidlo. Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i roi terfyn ar ragfarn ac i hyrwyddo cydraddoldeb a amrywiaeth.
- • Ni chymerir unrhyw gyfeirnodau tan y caiff cynnig gwaith dros dro ei wneud.